**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR CHWEFROR 7fed, 2023**

**Yn NEUADD BENTREF RHYDLEWIS am 7.30 y.h.**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng. Maldwyn Lewis (cadeirydd) | Cyng. Ceri Jones |
| | Cyng. Sharon Thomas | Cyng. Emyr Jones |
| | Cyng. Mark Davies | Cyng. Rob Jones |
| | Cyng. Llŷr Evans | Cyng. Carol Davies |
| | Cyng. Roger Davies | |

Croesawyd Sue Lewis o'r Tîm Cyngor ar Bopeth o Aberteifi.

**Clerc** Rhian Jones

| Eitem ar yr Agenda | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 1 . Ymddiheuriadau | Cyng. Sian Williams ynghŷd â'r Cyng.Teifi Evans. | | |
| 2. Cyflwyniad gan Swyddog Cyngor ar bopeth. | Mae Sue Lewis yn gweithio fel Swyddog Datblygu Busnes i'r Tîm Cyngor ar Bopeth yng Ngheredigion. Elusen yw sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a rhoddion.<br>Maent yn helpu trigolion yr ardal gyda nifer o broblemau, gan gynnwys budd-daliadau, dyledion, costau byw a banciau bwyd. Mae llawer o dlodi yn yr ardal. Maent yn gweithio ar draws Ceredigion, a llynedd ymwelodd 2,500 o drigioion yr ardal a hwy. Yn bennaf cynorthwywyd hwy gyda problemau tlodi a'r costau mewn biliau tannwydd.<br>Yn Aberteifi mae'r broblem i'w weld fwyaf, gydag ond tua 5,000 o drigiolion, gofynnwyd am help gan 241 ohonynt llynedd. Hefyd yn agos iawn at frig y rhestr mae Aberporth a Phenparc.<br>Nododd fod 41 o Gymuned Troedyraur wedi cysylltu a hwy llynedd.<br><br>Mae'r mwyafrif sy'n cysylltu yn ddi-waith, ond o fewn oed gwaith ac mae 66% ohonynt a phroblemau iechyd.<br>Llynedd cysylltodd 660 o unigolion ac roedd ganddynt 3,000 o broblemau. Nododd fod pawb sy'n cysylltu mewn argyfwng – nid un broblem sydd ganddynt - fel a ddatgelir yn y ffigurau hyn.<br>Mae 44% gydag argyfwng lles – problemau ariannol – e.e. methu dal i fyny gyda taliadau treth y cyngor a wedi gorfod troi at fenthycwyr arian didrwydded sy'n achosi fwy o broblem.<br>Mae llawer angen talebau i'r Banciau bwyd hefyd.<br>Agorwyd "Oergell Dros Ben" yn Aberporth mis Medi 2022, ac mae dros 400 o bobl wedi elwa yn barod.<br>Mae modd i'r Tîm yma arwain pobl yn y Cyfeiriad cywir, a gall rhai elwa o fanteision nad ydynt yn cael yn barod,e.e Credyd Pensiwn, a gall hwn helpu gyda buddiannau eraill fel optegydd a lleihau treth y cyngor.<br><br>Dosbarthwyd pamffledi gyda rhif ffôn i helpu hennoed a thrigolion sydd wîr angen cymorth. Mae'r galwadau yn rhad ac am ddim ac yn hollol gyfrinachol.<br>Mae pymtheg o Staff yn gweithio iddynt yng Ngheredigion a phymtheg | | |

arall yn Wirfoddolwyr. Y gobaith yw cael arian wrth y Loteri i ariannu pedair canolfan galw mewn ar draws y Sir, gan fod y gweithwyr yn gweithio o adref ar hyn o bryd!
Mae Aberteifi 'Cynnal y Cardi' ar agor am 5 awr yn wythnosol ar hyn o bryd, ac ar Ddydd Gwener, Chwefror 17eg, maent yn Llandysul a chroeso i unrhyw un alw mewn i weld yr hyn maent yn gynnig.
Maent yno hefyd i roi cyngor i fusnesau bach, a llynedd bu'r Tîm yn cyd-weithio gyda'r ffoaduriaid yng Ngwersyll Llangrannog.
Gall un alwad ffôn gynorthwyo at newid bywyd llawer iawn o bobl.
Eu gobaith y flwyddyn nesaf yw ceisio am grant Loteri i gael fan i deithio o gwmpas y Sir. Mae llawer yn byw yn anghysbell ac nid oes ganddynt ffordd na chyllid i deithio i ganolfanau penodol.

Mae rhif ffôn ar y wêfan 'Citizen Advice', a bydd y Clerc yn sicrhau fod y rhif yma yn cael ei rannu ar Wêfan y Cyngor.

Cytunodd y Cynghorwyr i drafod ymhellach eto am gyfraniad at yr achos.

3. Datgan Diddordeb. — DIM

4. Cofnidion y Cyfarfod Diwethaf a 5.Materion yn Codi

Roedd pob cynghorydd wedi cael copi o gofnodion y cyfarfod mis Ionawr.

Nid oedd y Cyng.Siân Williams ar restr y Cynghorwyr oedd yn bresennol yng nghyfarfod Ionawr ac felly cywirwyd hyn yma.

Nododd y Cyng. Emyr Jones nad oedd y datganiad yn ddigon clir yn y cofnodion am y £1,000 at gynnal y llwybrau cyhoeddus. Trafodwyd fel Cyngor i gyfrannu £1,000 at gynnal a chadw llwybrau yng nghymuned Troedyraur yn unig – neu os byddai gîat yn cael ei gosod fod plac arni yn nodi mae rhodd gan Gyngor Cymuned Troedyraur oedd.

Cynigiodd y Cyng. Sharon Thomas fod gweddill y cofnodion yn gywir, ac eiliodd y Cyng.Ceri Jones

6. Materion y Cynghorydd Sir

Mae gan y Cyngor Sir gyllideb i'w baratoi am y flwyddyn nesaf. Y dyddiau yma mae nifer o weithdai a thrafodaethau i sicrhau fod y gyllideb yn deg ac yn ateb pwrpas.

Mae Archwiliad Cymru yn arsylwi ar y system gynllunio, ac fe fydd dogfen arall yn cael ei chyhoeddi y mis nesaf.

Mae'r ffordd rhwng Rhydlewis a Brynhoffnant ar gau oherwydd eu bod yn gosod pibell newydd ar bwys Ysgol T.Llew Jones. Byddai o fudd i osod mwy o ganllawiau ar yr arwyddion ble yn union mae'r ffordd ar gau oherwydd eu bod braidd yn gamarweiniol ar hyn o bryd.

7. Gohebiaeth.

Daeth llythyr wrth Bennaeth Llwybrau Ceredigion yn nodi fod rhai pobl sy'n cerdded y llwybrau yn gadael clwydi yn agored ac mae hyn yn achosi cynnwrf i ffermwyr sydd a chreaduriaid.

Mae angen i'r Clerc nodi ar y Wêfan  fod angen i bawb sy'n defnyddio'r Llwybrau Cyhoeddus i gau pob gîat ar eu hôl.

Yn ystod mis Ionawr, derbyniwyd llythyr gan Sioe Dyffryn Teifi yn holi am gyfraniad. Cytunodd pawb oedd yn bresennol - Yn y dyfodol rhaid sicrhau fod pawb yn ymwybodol fod angen i'r llythyron/ffurflenni sy'n holi am gyfraniadau fod mewn erbyn diwedd y flwyddyn ( mis Rhagfyr) – er mwyn medru trafod yng nghyfarfod mis Ionawr.
Cynigiodd y Cyng Mark Davies fod y Clerc yn cadw rhestr o bawb sydd wedi holi yn ystod y flwyddyn – ond wedi methu y dyddiad cau yn Rhagfyr, fel bod gennym restr barod ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cytunodd pawb oedd yn bresennol fod hyn yn syniad da.

Ymgynghoriad llifogydd – ond nodwyd nad oedd yn gymaint o broblem yn y gymuned hon.

Garddwest y Brenin Siarl – os fyddai unrhyw un yn ymwybodol o rywun yn y gymuned neu'r Sir oedd wedi gwneud gwaith da, croeso iddynt eu enwebu.

Addysgu yn yr Awyr Agored – mae'n debyg fod dysgu plant yn yr awyr agored yn fwy iachus iddynt. Mae dysgu tu allan yn hybu'r dysgwyr – cynnal dosbarthiadau tu allan mewn ysgolion.
Ymgynghoriad ar y pwnc nawr yn agored.

Cytunwyd fod y Clerc yn llenwi yr arolwg De-fib a dderbyniwyd yn ddiweddar.

8. Cynllunio. Derbyniwyd un cais cynllunio yn Porthyrhyd, Brongest.
Y cais oedd i droi yr eiddo o  un masnachol i un preswyl – ond fel cartref gwyliau gosod.
Wedi tipyn o drafodaeth gan y Cynghorwyr pendefynnwyd ar yr isod
- Rhaid sicrhau fod y Rheolau Adeiladu yn gywir
- Hapus fel Cartref gwyliau gosod ond nid Cartref preifat
- Sut y bydd hyn yn effiithio ar y 'Phosphates' yn yr ardal.

9. Cyllid Cytunodd y Cynghorwyr oedd yn bresennol i ni dalu yr holl anfonebau.

Arwyddodd y Cyng Rob Jones a'r Cyng Roger Davies y sieciau.

| | | |
|---|---|---|
| **Taliadau** - | HMRC - £43.40 | 001693 |
| | Cyflog y Clerc - £173.80 | 001694 |
| | Cyfraniad at Eisteddfod Rhydlewis - £200 | 001690 |
| | Llinos Jones, Cyfieithu - £41.30 | 001691 |
| | Ashmole & Co - £157.80 | 001692 |

( Nodwyd fod y Clerc Rhian Jones yn hapus i gyfieithu'r Cofnodion, a chytunodd pawb oedd yn bresennol. O ran cwrteisi trafodwyd y byddai'r Clerc yn anfon llythyr at Llinos Jones i ddiolch iddi am ei gwasanaeth fel Cyfieithydd, ac fod y Cynghorwyr yn gwerthfawrogi ei

gwaith ar hyd y blynyddoed. Cytunodd pawb oedd yn bresennol os fyddai dogfen swmpus i gyfieithu i gadw Llinos Davies mewn côf am y dyfodol).

Hefyd cytunwyd i gynnal Pwyllgor bach nos Iau, Chwefror 9fed am 4:30yp i drafod Cyflog ac i lunio Contract Cyflogaeth Drafft i'r Clerc newydd.

Cytunodd Y Cynghorwyr Maldwyn Lewis, Mark Davies, Sharon Thomas a Roger Davies i fod yn bresennol.

10. Materion ardal. **CROESLAN** - Nodwyd fod bin halen newydd wedi cael ei leoli ger Tegfan yn lle yr un oedd wedi mynd ar goll.

Nodwyd fod E-bost wedi dod wrth BT yn nodi nad oedd ganddynt fwriad i roi drws newydd ar y blwch ffôn. Efallai y byddai'n syniad cysylltu eto â BT i nodi mae'r gwynt oedd wedi difrodi'r drws.

**COEDYBRYN –** Mae Pauline yn cwrdd â'r Cyng Roger Davies nos Fercher, Chwefror 8fed i newid y padiau ar y De-fib.

**BWLCHYGROES, FFOSTRASOL, RHYDLEWIS, BRONGEST a MAESLLYN –** dim .

11. Cyfarfod Nesaf. Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 7fed o Fawrth am 7:30yh yn neuadd bentref Ffostrasol.

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod at ei derfyn am 9:15yh.

12. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf.

Ymddiheuriadau
Datgan diddordeb
Cofnodion y Cyfarfod diwethaf
Cadarnhau'r Cofnodion
Adroddiad y Cynghorydd Sir
Gohebiaeth
Cynllunio
Cyllid – taliadau
Materion ardal – trafod potiau blodau yn y pentrefi
Blwch De-fib newydd yn Neuadd Coedybryn
Dyddiad y cyfarfod nesaf.